# Amserlen Penderfyniadau

## Panel Trwyddedu (Tacsi)

**I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 7 Mawrth 2019**

Gwnaeth y Panel Trwyddedu Tacsis y penderfyniadau canlynol ar 5 Mawrth 2019, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: D Davies (Cadeirydd), H Thomas, J Hughes, Y Forsey, W Routley, A Morris, T Suller

**Rhan 2**

**Eitemau Eithriedig neu Gyfrinachol**

Mae'r eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid yw adroddiadau a phapurau cefndir sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn i'w cyhoeddi ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf fel y maent yn ymwneud â chylchrediad i'r wasg a'r cyhoedd.

**LIC PAN 03/19**

**Trwyddedau Llogi Preifat / Cerbydau Hacni**

**Penderfyniad**

Rhoddodd y Panel Tacsis ystyriaeth ofalus i'r ceisiadau perthnasol a gwnaed y penderfyniadau canlynol:

Gyrrwr LM

1. Rhoddodd y Panel ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth a roddwyd ger eu bron a phenderfynu y dylid atal LM am bythefnos a gorchmynnwyd iddo ailsefyll y Cwrs Pass Plus a phrawf Gwybodaeth Hurio Preifat y Cyngor. Rhoddodd y Panel amod ychwanegol bod teledu cylch cyfyng mewnol yn cael ei osod yn y cerbyd.

Gyrrwr TD

2. Rhoddodd y Panel ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth a roddwyd ger eu bron a phenderfynu atal y Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat am wythnos a bod angen i TD ailsefyll a phasio prawf Gwybodaeth Hurio Preifat y Cyngor.

Gyrrwr SM

3. Rhoddodd y Panel ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth a roddwyd ger eu bron a phenderfynu rhoi Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat ar ôl iddo basio'r Cwrs Pass Plus.

Gyrrwr AS

4. Oherwydd diffyg presenoldeb y Gyrrwr, penderfynodd y Panel ohirio'r adroddiad am yr eildro.

**Ymgynghoriad**

Ddim yn berthnasol.
**Gweithredir gan:** Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
**Amserlen Weithredu:** Ar unwaith